

# Branwen

Bl. / Yr.  
3 & 4



Beth ydych chi'n gallu ei weld ar y clawr?  
What can you see on the cover?

Pwy ydy awduron y llyfr?  
Who are the authors of this book?


Pwy sy wedi gwneud y lluniau?  
Who is the illustrator?

Pwy sy wedi cyhoeddi'r llyfr?  
Who has published the book?

Ble cafodd y llyfr hwn ei gyhoeddi?  
Where was this book published?

Dyma Branwen.  
Brenhines ydy hi.

This is Branwen.  
She is a queen.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
dyma – this is brenhines (b) – queen



Sut mae Branwen yn teimlo?  
How does Branwen feel?

Disgrifiwch y llun.  
Describe the picture.

Pam dydy Branwen ddim yn gwisgo ei choron?  
Why isn't Branwen wearing her crown?

Ydy Branwen yn eich atgoffa o Cinderella? Sut?  
Does Branwen remind you of Cinderella? How?

Mae hi'n byw yn Iwerddon, ond mae hi'n dod o Gymru.

She lives in Ireland, but she comes from Wales.

Mae hi'n byw yn Iwerddon, ond mae hi'n dod o Gymru.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine    b = benywaidd / feminine  
byw – to live                      Iwerddon – Ireland                      dod – to come                      Cymru – Wales



Beth sy ar y bwrdd?  
What is on the table?

Disgrifiwch sut mae Branwen yn teimlo.  
Describe how Branwen is feeling.

Ydych chi'n teimlo'n drist weithiau?  
Do you sometimes feel sad?

Dydy Branwen ddim yn hapus.  
Does ganddi ddim ffrindiau.

Branwen isn't happy.  
She doesn't have any friends.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
hapus – happy ffrind (g) / ffrindiau – friend/s



Disgrifiwch y llun.  
Describe the picture.

Pam mae Branwen yn edrych dros y môr?  
Why is Branwen looking towards the sea?

Disgrifiwch y tywydd.  
Describe the weather.

Mae hi'n byw mewn palas, ond mae hi'n gweithio bob dydd yn y gegin.

She lives in a palace, but works every day in the kitchen.

Mae hi'n byw mewn palas, ond mae hi'n gweithio bob dydd yn y gegin.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine

byw – to live

palas (g) – palace

gweithio – to work

bob – every

dydd (g) – day

cegin (b) – kitchen



Beth sy yn y crochan?

What is in the cooking pot?

Disgrifiwch beth sy ar y bwrdd.

Describe what's on the table.

Disgrifiwch y gegin yn y palas.

Describe the kitchen in the palace.

Disgrifiwch eich cegin chi gartref.

Describe your kitchen at home.



Dyma'r cigydd.

Mae o'n gweithio bob dydd yn y gegin hefyd.

This is the butcher.

He also works in the kitchen every day.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
cigydd (g) – butcher hefyd – also



Disgrifiwch y cigydd.

Describe the butcher.

Pa gigoedd sy yn y gegin?

What meats are in the kitchen?

Hoffech chi fwyta'r cigoedd yma?

Would you like to eat these meats?

Mae o'n gas iawn i Branwen.

He's very nasty to Branwen.

Mae o'n gas iawn i Branwen.



### Geirfa / Vocabulary

cas – nasty

iawn – very



Disgrifiwch beth sy'n digwydd yn y llun.

Describe what's happening in the picture.

Sut mae Branwen yn teimlo rwan/nawr?

How does Branwen feel now?

Ar y sil ffenest, mae aderyn bach yn canu.

There's a little bird singing on the window sill.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
sil ffenest (g/b) – window sill      aderyn (g) – bird      canu – to sing  
drudwy (g) – starling



Disgrifiwch yr aderyn.  
Describe the bird.

Pa adar rydych chi'n eu hoffi?  
What birds do you like?

Disgrifiwch yr olygfa.  
Describe the scenery.



Mae o'n gweld Branwen yn crio.  
'Beth sy'n bod? Ga i helpu?'

He sees Branwen crying.  
'What's the matter? Can I help?'



### Geirfa / Vocabulary

gweld – to see

crio – to cry



Sut gall yr aderyn helpu Branwen?  
How can the bird help Branwen?

Disgrifiwch wyneb Branwen.  
Describe Branwen's face.

'Dw i eisiau mynd yn ôl i Gymru. Dw i eisiau siarad efo Bendigeidfran.'

'I want to go back to Wales. I want to speak to Bendigeidfran.'

'Dw i eisiau mynd yn ôl i Gymru. Dw i eisiau siarad efo Bendigeidfran.'



### Geirfa / Vocabulary

eisiau – to want

mynd – to go

yn ôl – back

siarad – to talk



Mae Branwen yn unig – ydych chi'n unig weithiau?  
Branwen is lonely – are you lonely sometimes?


Ydych chi'n hoffi'r enw Bendigeidfran? Pam?  
Do you like the name Bendigeidfran? Why?

Pa enwau eraill rydych chi'n eu hoffi?  
What other names do you like?



Mae'r aderyn bach yn hedfan i Gymru at Bendigeidfran. Mae o'n cario llythyr oddi wrth Branwen.

The little bird flies to Bendigeidfran in Wales. He is carrying a letter from Branwen.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine

aderyn (g) – bird

hedfan – to fly

Cymru – Wales

cario – to carry

llythyr (g) – letter

oddi wrth – from



Ble mae'r drudwy yn glanio?

Where does the starling land?

Beth sy ganddo o dan ei adain?

What does he have under his wing?

Beth sy'n mynd i ddigwydd rŵan/nawr?

What is going to happen now?

Ydych chi'n meddwl bod yr aderyn yn ddewr?

Do you think the bird is brave?

O! Mae Bendigeidfran yn flin ofnadwy.  
'Dewch efo fi i helpu Branwen.'

Oh! Bendigeidfran is very angry.  
'Come with me to help Branwen.'

O! Mae Bendigeidfran yn flin ofnadwy.  
'Dewch efo fi i helpu Branwen.'



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
blin ofnadwy – **very angry** dewch (command form) – **come** helpu – **to help**



Sut mae Bendigeidfran yn teimlo rŵan/nawr?  
How does Bendigeidfran feel now?

Beth sy'n mynd i ddigwydd rŵan/nawr?  
What is going to happen now?



Mae Bendigeidfran yn mynd dros y môr i Iwerddon.

Bendigeidfran crosses the sea to Ireland.

Mae Bendigeidfran yn mynd dros y môr i Iwerddon.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
mynd – to go dros – over môr (g) – sea Iwerddon – Ireland



Sut maen nhw'n teithio i Iwerddon?  
How do they travel to Ireland?

Sut mae Bendigeidfran yn croesi'r môr?  
How does Bendigeidfran cross the sea?

Ydych chi wedi bod ar long erioed? Ble aethoch chi?  
Have you ever been on a ship? Where did you go?

Sawl tarian sy ar y llong?  
How many shields are on the ship?

Pa batrymau sy ar y tariannau?  
What patterns are on the shields?

Mae o a'i ffrindiau'n dod at yr afon Llinon.  
O na! Does dim pont.

Bendigeidfran and his friends come  
to the river Llinon (Shannon).  
Oh no! There is no bridge.

Mae o a'i ffrindiau'n dod at yr afon Llinon.  
O na! Does dim pont.



**Geirfa / Vocabulary** – g = gwrywaidd / masculine b = benywaidd / feminine  
ffrind (g) / ffrindiau – friend/s                      dod – to come                      afon (b) – river  
Llinon – Shannon                      pont (b) – bridge



Beth ydy'r broblem yn y llun?  
What is the problem in the picture?

Sawl person sy yn y llun?  
How many people are in the picture?

O, diolch, Bendigeidfran.

Oh, thank you, Bendigeidfran.

O, diolch, Bendigeidfran.



## Geirfa / Vocabulary

diolch – thank you



Disgrifiwch beth sy'n digwydd yn y llun.  
Describe what's happening in the picture.

Sut mae Branwen yn teimlo rŵan/nawr?  
How does Branwen feel now?

Beth fydd yn digwydd rŵan/nawr?  
What will happen now?

# Gweithgareddau / Activities

- Creu casgliad o lyfrau am adar – lluniau/enwau/cynefin.  
Create a collection of bird books – pictures/names/habitat.
- Map graddfa fawr yn dangos Cymru ac Iwerddon – offer jync/blociau a chlai i ail-greu'r daith ar draws y môr.  
Large scale map showing Wales and Ireland – junk/blocks and clay to recreate the journey.
- Rhoi 8 llun o'r stori i'r plant – darparu amrywiaeth o offerynnau er mwyn iddynt greu stori seiniol.  
Give the pupils 8 pictures from the story – provide a variety of instruments for them to create a sound composition of the story.
- Dysgwch gân am adar e.e. 'Mam wnaeth got i mi' neu beth am ddysgu dawns 'birdie song'.  
Learn a song about birds e.g. 'Mam wnaeth got i mi' or learn the 'birdie song' dance.
- Cymharu llun o Sinderela a Branwen yn y gegin.  
Compare pictures of Branwen and Cinderella in the kitchen.
- Darlunio lluniau o gewri gan ddefnyddio sialc ar y buarth.  
Draw chalk drawings of giants on the school yard.
- Llunio coron tebyg i goron Bendigeidfran.  
Design a crown similar to Bendigeidfran's crown.
- Creu dawns greadigol i gynrychioli'r chwedl.  
Create a dance to represent the story.
- Defnyddio offer amrywiol i adeiladu pontydd, ac arbrofi.  
Use various materials to build bridges, and experiment.